# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD LLUN, 13EG TACHWEDD, 2017**

Lleoliad

**Ystafell Dwyryd,**
**Canolfan Gyswllt y Cyngor,**
**Parc Busnes,**
**Penrhyndeudraeth**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**01341 424301**

**glyndaobrien@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd: 08.11.17)

# FFORWM CYLLIDEB YSGOLION

**AELODAETH / MEMBERSHIP**

AELODAU CABINET / CABINET MEMBERS

Y Cynghorydd/Cllr Gareth Thomas (Addysg)
Y Cynghorydd/Cllr Peredur Jenkins (Adnoddau)

**CYFARWYDDWYR CORFFORAETHOL / CORPORATE DIRECTORS**

Mr Iwan Trefor Jones

**PENNAETH CYLLID**

Dafydd Edwards

PENAETHIAID UWCHRADD / SECONDARY HEAD TEACHERS

Mr Dylan Davies – Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Dewi Lake – Ysgol y Moelwyn
Mr Dylan Minnice - Ysgol Botwnnog
Mr Andrew Roberts - Ysgol y Berwyn

PENAETHIAID CYNRADD / PRIMARY HEAD TEACHERS

Mrs Iona Jones - Ysgol Edmwnd Prys/Bro Cynfal
Mr Rhys Williams - Ysgol Cymerau
Mrs Menna Wynne Pugh - Ysgol Penybryn
Mr Trystan Larsen - Ysgol Rhostryfan
Mr Llion Williams – Ysgol y Garnedd
Sedd Wag

UNDEBAU ATHRAWON / TEACHERS' UNIONS

Mr Neil Foden – Ysgol Friars

LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS

**Arfon**
Mr Godfrey Northam - Ysgol Dyffryn Ogwen
Mr Edward Bleddyn Jones – Ysgol Tregarth a Bodfeurig

**Meirionnydd**
Elen ap Gwilym – Ysgol Bro Tegid
Disgwyl enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

**Dwyfor**
Mr Gwilym Jones, Ysgol Borthygest,
Disgwyl Enwebiad - Llywodraethwyr Uwchradd

ESGOBAETH / DIOCESE

Anest Gray Frazer

YSGOLION EGLWYS / CHURCH SCHOOLS

**(Disgwyl enwebiad / Awaiting Nomination)**

YSGOLION ARBENNIG / SPECIAL SCHOOLS

Mrs Donna Roberts - Ysgol Hafod Lon

**Sylwedyddion / Observers :**
Mr Garem Jackson, Pennaeth Addysg Dros Dro / Interim Head of Education Service
Mr Owen Owens, Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg / Senior Education Resources' Manager
Mr Hefin Owen, Rheolwr Cyllid y Gyfadran Datblygu/Finance Manager Development Directorate
Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Cynradd
Mrs Alwen Watkin, Cadeirydd Ffederasiwn Penaethiaid Uwchradd

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. COFNODION 5 - 11

I gadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017.

(Copi'n amgaeedig)

## 4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

(a) Cefnogaeth ychwanegol i Ysgol Tywyn

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg

(b) Gwybodaeth cryno o wasanaeth rhwydwaith ysgolion

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Uwch Reolwr Technoleg Gwybodaeth a Thrawsnewid

(c) Diweddariad Talu-ar-lein

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg

(d) Diweddariad ymgynghoriad Clwb Brecwast

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Uwch Reolwr Gwasnaeth Adnoddau Addysg

## 5. GRANTIAU YSGOLION 2018/19

(a) Grant 6ed
(b) Grant Datblygu Disgyblion (GDD – yr hen Grant Amddifadedd Disgyblion)
(c) Grant Gwella Ysgolion - I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan Rheolwr Cyllid – Grwp Datblygu

## 6. SETLIAD DRAFFT - STRATEGAETH ARIANNOL CYNGOR GWYNEDD 2018/19, 2019/20 AC 2020/2021

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan y Pennaeth Cyllid.

## 7. ADOLYGIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD

I dderbyn adroddiad llafar ar yr uchod gan yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Uwch Reolwr Cynhwysiad.

## 8. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

I gadarnhau y cynhelir cyfarfod nesaf y Fforwm am 9.30 a.m. ar 11 Ionawr 2018.

**FFORWM CYLLIDEB YSGOLION**
**Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd yn Hen Eglwys y Santes Fair, Tremadog, ar 10 Gorffennaf 2017 o 2.30 p.m. hyd 4.20 p.m.**

**Yn Bresennol:**

**Aelodau Cabinet:** Y Cynghorydd Gareth Thomas (Addysg)

**Pennaeth Cyllid:** Dafydd Edwards

**Penaethiaid Ysgolion :** Alun Llwyd (Ysgol Dyffryn Ogwen), Dylan Minnice (Ysgol Botwnnog), Andrew Roberts (Ysgol y Berwyn), Dewi Lake (Ysgol y Moelwyn), Trystan Larsen (Ysgol Rhostryfan), Llion Williams (Ysgol y Garnedd), Iona Wyn Jones (Ysgol Bro Cynfal ac Ysgol Edmwnd Prys), Menna Wynne Pugh (Ysgol Penybryn, Tywyn).

**Llywodraethwyr:** Godfrey Northam (Ysgol Dyffryn Ogwen)
Llinos Lloyd (Corff Cysgodol Bro Idris ac Ysgol Brithdir)
Gwilym Jones (Ysgol Borthygest)

**Swyddogion:** Garem Jackson (Pennaeth Addysg Dros Dro)
Owen Owens (Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg)
Hefin Owen (Rheolwr Cyllid)
Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Eraill a Wahoddwyd:** Eifion Jones – Ymgynghorydd Allanol
Arwel Pierce – Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn
David Thorp – Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Tywyn

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng. Peredur Jenkins (Aelod Cabinet – Adnoddau), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Kerry Parry (Ysgol y Ganllwyd), Rhys Williams (Ysgol Cymerau),Edward Bleddyn Jones (Llywodraethwr Ysgol Tregarth a Bodfeurig), Neil Foden (Undebau Athrawon).

**Nodwyd bod Mr Alun Llwyd, Pennaeth Ysgol Dyffryn Ogwen, yn ymddeol o'i swydd ddiwedd tymor yr haf. Diolchwyd iddo am am ei ymroddiad a'i gefnogaeth i waith y Fforwm yn ystod y blynyddoedd y bu'n aelod o'r Fforwm a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol yn ei ymddeoliad.**

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol Mr Godfrey Northam yn Gadeirydd i'r Fforwm am y flwyddyn 2017/18.**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Ail-ethol y Cynghorydd Gareth Thomas yn Is-gadeirydd i'r Fforwm am y flwyddyn 2017/18.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol.

**4. <u>COFNODION</u>**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Fforwm Cyllideb Ysgolion a gynhaliwyd ar 7 Chwefror 2017 fel rhai cywir.

**4.1 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

**Eitem 4 – Ymgynghoriad ar newid geiriad Cynllun Ariannu Ysgolion mewn perthynas â throsglwyddo balansau ysgolion sy'n cau**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Ysgolion bod y Cabinet yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2017 wedi cymeradwyo newid geiriad cymal 4.8 o'r Cynllun Ariannu Ysgolion yn unol â'r geiriad isod:

*"Bydd gweddill unrhyw ysgol sy'n cau (boed y gweddill hwnnw yn warged neu'n ddiffyg) yn eiddo i'r awdurdod; ni ellir ei drosglwyddo fel gweddill i unrhyw ysgol arall, heblaw i ysgol a sefydlwyd fel canlyniad i'r cau hwnnw. Mewn sefyllfa o'r fath trosglwyddir y gweddill i'r ysgol newydd o dan ddarpariaethau Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010.*

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**5. CYLLIDEB A DIFFYG ARIANNOL YSGOL TYWYN**

**Croesawyd y canlynol i'r Fforwm ar gyfer yr eitem hon:**

**Eifion Jones - Ymgynghorydd Annibynnol**
**Arwel Pierce - Cadeirydd Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Tywyn**
**David Thorp - Dirprwy Bennaeth Ysgol Uwchradd Tywyn**

Cyflwynwyd adroddiad arbenigwr annibynnol ar waith ymchwil o gyllideb a diffyg ariannol Ysgol Uwchradd Tywyn.

Tynnwyd sylw'r Fforwm i gadw mewn cof bod y gwaith yn gychwyn tuag at gyflawni elfennau o brosiect P1 yng Nghynllun y Cyngor sef:

- Dadansoddi sefyllfa gyllidol a chwricwlaidd ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion
- Adnabod anghenion lleiafswm staffio sydd ei angen er mwyn cynnal cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd sydd â niferoedd bychan o ddisgyblion

- Argymell a chostio ble ddylai'r llinell warchodaeth staffio fod ar gyfer y Sector Uwchradd er mwyn i'r Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth honno wrth sefydlu cyllideb 2018/19

(a) Cymerodd yr Ymgynghorydd Annibynnol y cyfle i ddiolch i Lywodraethwyr a staff yr ysgol am eu cydweithrediad tra yn cynnal yr ymchwiliad a'r ffaith eu bod yn hollol agored ac yn awyddus i symud ymlaen. Ymhelaethwyd ar y cefndir, cyd-destun sefyllfa gyllidol yr ysgol, y camau a weithredwyd eisoes a rhagolygon yr ysgol o 2017/18 ymlaen. Darganfuwyd bod sawl rheswm o anallu yr ysgol i osod cyllideb cytbwys megis:

- Cwymp sylweddol yn nifer disgyblion dros y blynyddoedd
- Colli hanner yr arian oherwydd lleihad yn y niferoedd – fodd bynnag rhagolygon yn awgrymu ychydig bach mwy o ddisgyblion
- Lefel y gefnogaeth yn lleihau
- Trefniadau gwarchodaeth gyllidol gyda niferoedd isel o ddisgyblion

Mewn cyfnod o geisio gwarchod a chodi safonau addysgol, roedd yr ysgol wedi gwneud camau breision gan gadw'r balans o hygrededd staff a'r gymuned, ac yr un pryd yn cydnabod bod camau eraill i'w gyflawni.

O ran camau gweithredu, nodwyd bod yr ysgol wedi:

- Adolygu cyfrifoldebau a lefel staffio yr ysgol
- Lleihau grwpiau dysgu'r ysgol yn y pynciau craidd ond yn parhau i ateb gofynion statudol cwricwlwm CA3 a CA4
- Arfarnu ac ail-strwythuro'r drefn taliadau CAD (Cyfrifoldebau Addysgu a Dysgu) i reolwyr canol yr ysgol
- Ad-drefnu'r Uwch Dim Rheoli
- Adolygu a rhesymoli lefel o gyllid ym mhenawdau eraill y gyllideb

Ochr yn ochr â'r uchod, bu i'r ysgol weithio'n galed i gynnal a chodi safonau gan sicrhau cynnydd da. Tynnwyd sylw bod defnydd o'r iaith Gymraeg yn cael blaenoriaeth yn y cwricwlwm gyda 95% o ddisgyblion yn dilyn cwrs Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 a CA4 er bod mwyafrif sylweddol ohonynt yn siarad Saesneg ar yr aelwyd. Nodwyd ymhellach bod yr ysgol wedi dechrau cynyddu nifer y disgyblion gan sicrhau bod holl ddisgyblion blwyddyn 6 y dalgylch am fyncyhu'r ysgol. Pe byddai'r ysgol wedi gweithredu'n fwy llym o ran torri staff i greu arbedion cyllidol a thrwy hynny allu gosod cyllideb cytbwys dros y tair blynedd diwethaf wedi golygu y byddai'r cynnydd da yn y safonau a'r cynnydd yn nifer disgyblion wedi ei lesteirio.

Fodd bynnag, mae angen cyflawni arbedion pellach ar gyfer gallu gosod a gweithredu cyllideb gytbwys yn gyson i'r dyfodol, ac fe restrodd yr Ymgynghorydd Annibynnol y prif newidiadau cyllidol real fesul blwyddyn dros y tair blynedd nesaf. Drwy wneud hyn, rhagwelir y gellir gosod a gweithredu cyllideb cytbwys dynn ond mwy realistig yn 2017/18 a chyllidebau cytbwys a mwy hyblyg dros y ddwy flynedd 2018-2020 fydd yn gallu cyfrannu at gostau angenrheidiol blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, nodwyd y byddai'n anodd i'r ysgol gyfrannu at y £116,000 o ddiffyg hanesyddol cronnus ar ddiwedd 2016/17.

Felly, roedd dau fater i'w ystyried ymhellach gan yr awdurdod sef:

- Diffyg cyllid hanesyddol
- Lefel y gwarchodaeth i ysgolion bach

(b) Adroddodd Cadeirydd Llywodraeth Ysgol Uwchradd Tywyn na fyddai yn dymuno gweld ‘run ysgol yn yr un sefyllfa a bod y 4/5 mlynedd diwethaf wedi bod yn hunllefus. Roedd yr Ymgynghorydd Annibynnol wedi crynhoi teimladau’r Llywodraethwyr ac roeddynt yn ddiolchgar iddo am y cymorth a dderbyniwyd. Nodwyd ymhellach bod yr ysgol yn ynysig yn ddaearyddol ond hyderir y bydd y sefyllfa yn parhau i wella i’r dyfodol. O safbwynt addysgu grwpiau o oddeutu 29 disgybl ym Mlwyddyn 8, gwelwyd anhawsterau i ymdopi gyda’r ystod o allu o fewn y dosbarth, yn ogystal ag ystod o gefndir ieithyddol. Fe fydd 65 o ddisgyblion yn dechrau ym Mlwyddyn 7 eleni a 3 ohonynt yn Gymry Cymraeg ac felly roedd yn bwysig cynnal y gwaith da a wneir yn yr ysgol gyda’r iaith Gymraeg. Gofynnwyd i’r Fforwm am ei gefnogaeth i achos unigryw ac i nodi wrth y Cabinet bod y sefyllfa yn eithriad.

(c) Ategodd y Pennaeth Addysg (Dros Dro) o’r gefnogaeth sydd i’r iaith Gymraeg ac y byddai’n gam i ddibrisio’r angerdd sydd yn yr ardal dros yr iaith.

(d) Diolchodd yr Aelod Cabinet Addysg i’r Ymgynghorydd Annibynnol ac i’r Llywodraethwyr a staff yr ysgol am eu cydweithrediad parod a’i fod yn awyddus i gynnal trafodaeth bellach gyda’r Tim Arweinyddiaeth maes o law.

(e) Yn ystod y drafodaeth ddilynol, mynegwyd y prif bwyntiau canlynol gan aelodau’r Fforwm:

- Gwelwyd gwerth o dderbyn y math yma o adroddiad gan bod nifer o arweinwyr ysgolion heb gefndir ariannol, a bod angen mwy o gefnogaeth ymarferol
- Bod ysgolion yn cael eu herio a heb gyllid i’w cefnogi roedd yn anodd cynnal safonau addysgol
- Bod cwtogi ar bynciau mewn ysgolion bach yn anodd ac o ganlyniad bod disgyblion yn symud i ysgolion eraill mwy
- Nodwyd bwysigrwydd i beidio colli pynciau
- A fyddai modd i’r awdurdod fod yn rhagweithiol gyda ysgolion eraill o fod yn cynllunio ynghynt yn y tymor hir fel nad ydynt yn mynd i drafferthion cyllidol
- Bod sefyllfa pob ysgol yn unigryw

(f) Mewn ymateb i’r uchod, nodwyd bod cefnogaeth ar gael i ysgolion o fewn gallu a’r adnoddau sydd ar gael yn yr Uned Gyllidol. Ychwanegwyd bod rhydd i unrhyw Bennaeth gysylltu á’r Rheolwr Cyllid a thynnwyd sylw bod cymorthfeydd cyllidol ar gael i Benaethiaid.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd allanol.**

**(b) Gofyn i’r Aelod Cabinet Addysg drafod yr cefnogaeth i’r ysgol ymhellach gyda’r Tim Arweinyddiaeth.**

**(c) Bod adroddiad yr Ymgynghorydd Annibynnol yn gyfrinachol ac o’r herwydd ddim i ymddangos ar wefan gyhoeddus y Cyngor.**

**6. CYFRIFON TERFYNOL YSGOLION 2016/17**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, fanylion balansau ysgolion yn nodi bod cyfanswm balansau sydd dros 5% wedi lleihau o £1,586,885 (66 ysgol) ar 31 Mawrth 2016 i £1,285,447 ar 31 Mawrth 2017.

Nododd y Rheolwr Cyllid bod bwriad i drafod ymhellach gydag oddeutu 17 ysgol a'r angen i gydweithio gydag ysgolion. Bwriedir cyflwyno adroddiad cynnydd i'r Fforwm ym mis Tachwedd yn deillio o'r trafodaethau gyda'r ysgolion penodol.

Anogir Penaethiaid i drafod gyda'r Uned Gyllid ynglyn â phroblemau cyllideb fel bo modd bod yn rhagweithiol. Gwerthfawrogir bod rheolaeth eithaf da gan ysgolion ynghyd ag ymdrechion gan y Penaethiaid a'r Llywodraethwyr i gadw lefel y balansau yn isel.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**7. GRANTIAU YSGOLION 2017/18**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Addysg (Dros Dro) ynghyd ag atodiad yn manylu'r prif grantiau sydd wedi'i datganoli i pob ysgol yng Ngwynedd am 2017/18, sef cyfanswm o £9.8miliwn uwchben y £71miliwn a ddyrennir gan y Cyngor.

Nodwyd bod y Grant Amddifadedd Disgyblion (GAD) wedi'i ail-enwi i Grant Datblygu Disgyblion (GDD) gyda'r arian yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar nifer disgyblion gyda hawl cinio am ddim (£1,150 y pen ar gyfer disgyblion o oed ysgol statudol a £600 y pen am yr elfen disgyblion dan 5 oed). Eleni dyrennir £2,271,450 o'i gymharu â £2,203,350 yn 2016/17.

O safbwynt y Grant Gwella Addysg (GGA) ar gyfer codi safonau addysgu dyrennir £4,167,438 o'i gymharu â £4,171,818 yn 2016/17)

Eglurwyd bod dau brif ffactor i leihad yn y cyllid a dderbynnir sef:

(a) Niferoedd disgyblion ac ystyriaeth i'r gyfradd o ddisgyblion sydd yn aros i Blwyddyn 12 a bod cyfradd yng Ngwynedd yn isel
(b) Faint o arian y pen a ddyrennir ar gyfer disgyblion a bod Gwynedd wedi dioddef o leihad oherwydd cyfradd is y disgybl oherwydd bod llawer o ddisgyblion Gwynedd yn dilyn 3 pwnc a'r BAC (sydd ddim yn cyfrif fel pwnc) gyda llawer o ddisgyblion Gwynedd yn dilyn 3 pwnc a'r BAC at ddibenion y grant

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**8. CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Addysg (Dros Dro) ar y Cytundebau Lefel Gwasanaeth i ysgolion ynghyd a'u hymatebion a sylwadau ar y gwahanol gytundebau.

Atgoffodd yr Uwch Reolwr Ysgolion bod y Fforwm Cyllideb Ysgolion wedi rhoi sêl bendith ar ymestyn y Cytundebau Lefel Gwasanaeth canlynol:

- Uned Cefnogi Addysg (cynradd)

- Personél, Cyflogaeth a Chefnogaeth Gyfreithiol
- Cynnal Tiroedd

am flwyddyn ychwanegol.

Nodwyd o ran cytundeb Cynnal Tiroedd bod dipyn o waith i'w gyflawni o ran mapio allan safleoedd yr ysgolion, a.y.b.

Mewn ymateb i gwestiynau ynglyn â gwasanaeth rhwydwaith ysgolion, eglurwyd nad oedd yr uchod yn rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth ac ar hyn o bryd yn gytundeb cenedlaethol gan y llywodraeth.

Er mwyn tryloywder, awgrymwyd gan aelodau'r Fforwm y byddai'n fuddiol derbyn gwybodaeth cryno am y gwasanaeth a dderbynnir gan ysgolion am yr arian.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Rheolwr Cyllid ddarparu gwybodaeth cryno i Aelodau'r Fforwm o'r hyn a dderbynnir fel rhan o'r gwasanaeth rhwydwaith ysgolion.**

**9. TALU-AR-LEIN**

Diweddarwyd y Fforwm gan yr Uwch Reolwr Ysgolion o'r gwasanaeth talu-ar-lein am ginio ysgol mewn ysgolion cynradd ac arbennig y Sir. Erbyn hyn, nodwyd bod cwmni CYNNAL wedi gosod meddalwedd ar sustemau ysgolion ac fe fyddir yn cynnig hyfforddiant maes o law, ynghyd â lansiad swyddogol.

Bydd y cynllun yn galluogi rhieni i gael mynediad drwy dudalennau hunan wasanaeth y Cyngor ac yn hyn o beth hyderir y byddai modd iddynt weld gwasanaethau eraill sydd ar gael gan y Cyngor.

Croesawyd yr uchod yn fawr iawn gan gynrychiolydd o'r sector cynradd gan nodi y bydd yn hwyluso trefniadau.

O safbwynt dyledion am ginio ysgol, dymuna'r gwasanaeth addysg i'r sustem sefydlu cyn adrodd ymhellach ar ei lwyddiant, manteision ac anfanteision, a.y.b.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am y wybodaeth uchod.**

**10. YMGYNGHORIAD CLWB BRECWAST**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Ysgolion, er gwybodaeth, bod y ddarpariaeth clybiau brecwast yn un o'r elfennau i'w ystyried fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd. Ar hyn o bryd gweithredir y clwb brecwast rhwng 8.00 y.b. a 8.50 y.b. Ystyrir dau opsiwn i'r dyfodol sef:

(a) Lleihau oriau y clwb brecwast presennol i gychwyn am 8.25 y.b.
(b) Peidio lleihau'r oriau ond codi ffi ar rieni am yr elfen gofal y plant rhwng 8.00 y.b. a 8.25 y.b.

Bwriedir anfon llythyr i rieni cyn diwedd y tymor a bod modd i gwblhau holiadur ar lein gyda chopïau ar gael yn Llyfrgelloedd y Sir a Siopau Gwynedd. Awgrymir i Benaethiaid annog rhieni i gwblhau'r holiadur.

**Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r uchod.**

**11. DYDDIADAU CYFARFODYDD NESAF**

**Penderfynwyd: (a) Cadarnhau dyddiad cyfarfod nesaf y Fforwm sydd i'w gynnal am 2.00 p.m., dydd Llun, 13 Tachwedd 2017.**

**(b) Cynnal cyfarfod ddiwedd mis Ionawr 2018 – dyddiad i'w bennu gyda Chadeirydd a swyddogion y Fforwm.**

**<u>CADEIRYDD</u>**